

Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch

Mae cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn gymhwyster Lefel 3 newydd cyffrous sy'n cael ei ddyfarnu ac sy'n cefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion effeithiol, cyfrifol a gweithgar sy'n barod i gymryd eu lle mewn cymdeithas fyd-eang gynaliadwy ac yn y gweithle.

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr 16-19 oed sy'n dilyn cwrs dwy flynedd. Fel arfer, bydd yn cael ei sefyll ochr yn ochr â chymwysterau lefel 3 eraill, fel cyfuniad o gymwysterau Safon Uwch a/neu gymwysterau galwedigaethol.

Gofynion cofrestru

Er nad oes unrhyw ofynion cofrestru ffurfiol, mae'n rhesymol tybio y bydd llawer o ddysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i lefel 2 ac y byddant wedi datblygu sgiliau mewn cynllunio a threfnu, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, creadigrwydd ac arloesi ac effeithiolrwydd personol i'r lefel hon. Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i fireinio a datblygu'r sgiliau hyn i lefel uwch.

Nid yw'r cymhwyster yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Drwy gwblhau cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, bydd dysgwyr yn:

- datblygu, yn defnyddio ac yn cael eu hasesu ar eu sgiliau Cynllunio a Threfnu; Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesi; ac Effeithiolrwydd Personol (y Sgiliau 'Cyfannol')
- cael cyfleoedd i ddatblygu ymhellach eu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol (y Sgiliau 'Mewnblanedig')
- dod i werthfawrogi pwysigrwydd y broses o feithrin sgiliau fel agwedd allweddol ar ddysgu gydol oes
- cymryd rhan mewn cyfleoedd gweithredol, creadigol, ac wedi'u harwain gan y dysgwr
- ymholi a meddwl drostynt hwy eu hunain, cynllunio, gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, datrys problemau a myfyrio arnynt a'u gwerthuso
- datblygu blaengaredd, annibyniaeth a gwydnwch
- gweithio'n annibynnol, ymgymryd â chyfrifoldebau a gweithio'n effeithiol gydag eraill.



Strwythur y Cymhwyster

Mae cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn cynnwys tair uned y cyfeirir atynt fel Projectau.



Mae'r **Project Cymuned Byd-eang** yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso Sgiliau Cyfannol drwy ystyried materion byd-eang cymhleth a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lleol (15 awr o leiaf) i hybu dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy a Chymru.

Mae **Project Cyrchfan y Dyfodol** yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso'r Sgiliau Cyfannol gan archwilio ar yr un pryd nodau ar gyfer bywyd, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth yn y dyfodol mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.



Mae'r **Project Unigol** yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu bod yn gallu cymhwyso Sgiliau Cyfannol drwy gynllunio, rheoli a chynnal project ymchwil annibynnol (project ysgrifenedig estynedig neu arteffact).

Asesu

Asesir pob Project drwy gyfres o dasgau lle mae gofyn i ddysgwyr arddangos sut maen nhw'n cymhwyso eu sgiliau cynllunio a threfnu, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, creadigrwydd ac arloesi ac effeithiolrwydd personol. Wrth gwblhau eu hasesiadau bydd dysgwyr yn archwilio testunau sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt o fewn themâu wedi'u diffinio'n fras sy'n gysylltiedig ag Agenda Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru.

Mae asesu'r Project Cymuned Byd-eang yn cyfrannu 25% at radd gyffredinol y cymhwyster ac mae gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

- dewis ac ymchwilio i fater byd-eang o'u dewis
- gwneud cysylltiadau rhwng y mater byd-eang y maent wedi ymchwilio iddo a safbwynt lleol
- cynllunio a chyfrannu at weithredu yn y gymuned

Mae asesu'r project Cyrchfannau'r Dyfodol yn cyfrannu 25% at radd gyffredinol y cymhwyster ac mae gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

- ystyried eu sgiliau, eu priodoleddau, eu galluoedd a'u nodau
- creu manifestio personol ar gyfer eu dyfodol
- cydweithio â'u cyfoedion i gyflawni nod cyffredin

Mae asesu'r Project Unigol yn cyfrannu 50% at radd gyffredinol y cymhwyster ac mae gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

- archwilio testun ymchwil o'u dewis
- cynhyrchu a chyflwyno canlyniad ymchwil, a allai gynnwys cynhyrchu arteffact
- gwerthuso eu project unigol

Gellir cynnal asesiadau drwy gydol y cwrs er bod dysgwyr yn debygol o gwblhau'r Project Unigol yn eu hail flwyddyn.

Sut mae'r cymhwyster yn cael ei raddio?

Mae'r cymhwyster yn cael ei raddio A*-E.

Beth gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Mae'r sgiliau a'r ymddygiadau a ddatblygir drwy gwblhau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn rhoi sylfaen addas ar gyfer astudio amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at wefan CBAC yn <https://www.cbac.co.uk/home/bagloriaeth-sgiliau-cymru-uwch/>